

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Golden Aura Clinic, Bangor

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mawrth 2026

Dyddiad cyhoeddi: 10 Mehefin 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	11
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	15
4.	Y camau nesaf	16
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	17
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	18
	Atodiad C - Cynllun gwella	19

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Golden Aura Clinic ar 10 Mawrth 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Golden Aura Clinic yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'r cleifion. Roedd yr ystafell drin yn lân ac yn daclus ac yn sicrhau bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn "dda iawn" a bod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod y driniaeth, yn gwrandao ar y cleifion ac yn ateb cwestiynau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Diweddarur'r wybodaeth i gleifion er mwyn nodi'r cyfyngiadau o ran hygyrchedd y safle.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd glân a dymunol
- Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch a phroffesiynoldeb.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau glanhau effeithiol ar waith. Roedd yr uned laser wedi cael ei gwasanaethu a'i chynnal a'i chadw'n briodol. Roedd Cynghorydd Diogelu rhag Laserau penodedig ac roedd gan y clinig Reolau Lleol a phrotocolau trin cyfredol.

Roedd y gweithredwr laser wedi cwblhau hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r cyfarpar laser yn ddiogel.

Gwnaethom gynghori y dylid cwblhau asesiadau risg ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Cawsant eu cwblhau, a rhoddwyd tystiolaeth o hyn yn syth ar ôl yr arolygiad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau y caiff cofnodion cleifion eu cwblhau'n drylwyr ac yn gyson
- Sicrhau y caiff Profion Offer Cludadwy eu cynnal yn rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y peiriant laser a ddefnyddir yn y clinig yn cael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw'n briodol i sicrhau triniaeth ddiogel
- Roedd mesurau cadarn ar waith i atal a rheoli heintiau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig oedd perchennog y clinig ac roedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant cyfredol ac amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro ac adnewyddu hyfforddiant gofynnol fel y bo'n briodol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Ymatebodd saith claf i holiadur AGIC gan ddarparu adborth cadarnhaol ar y cyfan, a nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Roedd y lleoliad yn lân ac yn drefnus. Gwnaeth y staff i mi deimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel wrth gael triniaeth.”

“Gwasanaeth rhagorol, llawn gwybodaeth a chyfeillgar gyda digon o gyfleoedd i deimlo'n gyfforddus i ofyn cwestiynau a gwneud penderfyniadau.”

Urddas a pharch

Gwelsom y gweithredwr yn siarad â'r cleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd yn bosibl cloi drws yr ystafell drin ac roedd bleinds wedi'u cau ar y ffenestri allanol er mwyn sicrhau preifatrwydd y cleifion yn ystod triniaethau. Roedd yn rhaid trefnu apwyntiad i gael sesiynau trin ac roedd mynediad i'r adeilad yn cael ei reoli.

Gallai cleifion newid, pe bai angen, yn yr ystafell drin a byddai'r staff yn gadael yr ystafell er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y claf.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod y staff wedi eu trin ag urddas a pharch a bod y staff wedi gwrando arnynt ac wedi ateb eu cwestiynau.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Disgrifiodd y gweithredwr broses ymgynghori briodol ar gyfer cleifion cyn iddynt gael triniaeth, a oedd yn cynnwys trafodaethau am y driniaeth, addasrwydd a chanlyniadau posibl. Roedd hyn yn sicrhau y gallai'r cleifion wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth ac roedd gofyn i'r cleifion lofnodi i ddangos eu bod yn cydsynio.

Pe byddai gan y gweithredwr unrhyw bryderon am allu'r claf i roi cydsyniad ar sail gwybodaeth neu am ei addasrwydd i gael triniaeth, byddai'n gwrthod rhoi'r driniaeth honno.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth a'u risgiau a'u manteision, a bod y gost wedi cael ei hegluro iddynt cyn iddynt gael triniaeth.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y clinig wefan a oedd yn darparu gwybodaeth am ei wasanaethau, prisiau a manylion cyswllt. Nid oedd y datganiad o ddiben na'r daflen wybodaeth i gleifion wedi'u cynnwys ar y wefan ond roeddent ar gael i'r cleifion yn y clinig.

Byddai cleifion fel arfer yn trefnu apwyntiadau ar-lein drwy ddefnyddio gwefan y clinig ond gallent ofyn am apwyntiadau dros y ffôn os byddai'n well ganddynt.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod y driniaeth, yn gwrandao ar y cleifion ac yn ateb cwestiynau.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cael triniaeth, ac roedd y canlyniadau'n cael eu dogfennu fel rhan o gofnod triniaeth y claf. Cadarnhaodd y gweithredwr fod yn rhaid i'r cleifion aros o leiaf 48 awr rhwng y prawf croen a'r driniaeth, i sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol yn cael eu nodi.

Disgrifiodd y gweithredwr drefniadau priodol ar gyfer casglu hanes meddygol y cleifion cyn rhoi unrhyw driniaeth iddynt ac roedd hyn yn rhan o gofnodion y cleifion. Byddai gwiriadau ar lafar yn cael eu cynnal ym mhob ymweliad dilynol i nodi unrhyw newidiadau ers yr ymgynghoriad cychwynnol.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod eu hanes meddygol wedi cael ei wirio cyn iddynt gael triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd gan y clinig bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar waith. Roedd gwefan y clinig yn cynnwys logo'r Safe Space Alliance, gan ei hysbysebu fel gwasanaeth sy'n cefnogi ac yn croesawu cleientiaid lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsryweddol, cwiar plws (LHDTC+).

Roedd y clinig ar y llawr cyntaf ac nid oedd yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu'r rhai ag anawsterau symudedd. Dywedodd y gweithredwr wrthym y

byddai'n esbonio hyn i gleifion newydd ac yn awgrymu clinigau eraill pe bai angen. Fodd bynnag, nid oedd y materion hygyrchedd yn glir yn y canllaw i gleifion nac ar y wefan.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion a gwefan y clinig i sicrhau bod darpar gleifion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hygyrchedd.

Roedd pawb a atebodd holiadur AGIC yn cytuno nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Fel arfer, byddai'r cleifion yn rhoi adolygiadau ar-lein neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Roedd cod ymateb cyflym (QR) yn cael ei ddarparu i annog cleifion i adael adolygiadau ar-lein.

Dywedodd y gweithredwr fod unrhyw adborth yn cael ei adolygu cyn gynted â phosibl, ar sail ad hoc.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle yn amlwg yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y clinig yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael pe bai angen, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol.

Roedd yn rhaid defnyddio system mynediad a oedd yn cael ei rheoli o bell i gael mynediad i'r adeilad, a oedd yn sicrhau bod y safle yn ddiogel.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd y clinig yn amlwg yn lân ac yn daclus, heb annibendod. Roedd y safle a'r cyfarpar yn ymddangos mewn cyflwr da. Fodd bynnag, nid oedd gan y clinig asesiad risg lechyd a Diogelwch priodol ar waith er mwyn nodi risgiau posibl a mesurau rheoli. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a chyflwynwyd asesiad risg lechyd a Diogelwch cynhwysfawr fel tystiolaeth.

Gwelsom dystiolaeth o adroddiad cyfredol ar osodiadau trydanol a thystysgrif diogelwch nwy. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod profion offer cludadwy rheolaidd yn cael eu cynnal. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a threfnodd y gweithredwr i brofion offer cludadwy gael eu cynnal a darparwyd tystiolaeth i ddangos bod y profion wedi'u cwblhau. Roedd y dyfeisiau yn edrych yn gymharol newydd ac mewn cyflwr da yn ôl pob golwg.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion offer cludadwy yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Gwnaethom ystyried y rhagofalon diogelwch tân ar y safle a gwelsom fod diffoddwyr tân a oedd wedi cael eu gwasanaethu'n briodol wedi'u gosod ar y waliau'n gywir gydag arwyddion clir. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân a thystiolaeth bod cyfarpar a systemau diogelwch tân yn cael eu profi fel mater o drefn. Roedd y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân. Fodd bynnag, gwnaethom edrych ar yr asesiad risg tân a oedd ar waith a gwelsom nad oedd yn nodi risgiau a mesurau rheoli yn ddigonol. Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a chynhaliwyd asesiad risg tân gan ddefnyddio templed yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, a nodwyd risgiau, mesurau rheoli a'r camau gweithredu gofynnol.

Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael yn yr ystafell drin ac roedd y gweithredwr wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd yr ystafell drin yn amlwg yn lân ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd y clinig mewn cyflwr da a oedd yn sicrhau bod modd ei lanhau'n effeithiol.

Roedd y gweithredwr wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a dangosodd drefniadau glanhau priodol. Roedd y gweithredwr yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol yn ystod triniaethau, yn defnyddio gorchuddion untro ar gyfer y gwely trin ac yn glanhau'r ystafell a'r cyfarpar rhwng cleientiaid. Roedd yr ystafell drin yn cynnwys cyfleusterau golchi dwylo.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff, ac roedd bin gwastraff clinigol ac uned gwaredu offer miniog ar gael yn yr ystafell drin.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd a chadarnhaodd y gweithredwr mai dim ond oedolion oedd yn cael eu trin. Nid oedd cleientiaid yn cael eu hannog i ddod â phlant gyda nhw i'r safle, ond os oedd plant yn bresennol, byddent bob amser yn cael eu goruchwyllo gan eu gofawyr.

Darparodd y gweithredwr dystiolaeth o hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion.

Nid oedd y gweithredwr yn ymwybodol o Weithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a lawrlwythodd y gweithredwr yr ap ar ei ffôn symudol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd y ddwy uned laser mewn cyflwr da, yn lân yr olwg ac yn gyson â'r cofrestrriad ag AGIC. Gwelsom dystiolaeth bod y ddau beiriant wedi cael eu gwasanaethu bob blwyddyn a'u cynnal a'u cadw o dan gontract â'r cyflenwr.

Roedd arwyddion priodol ar ddrws yr ystafell drin i rybuddio pobl bod unedau laser yn cael eu defnyddio. Roedd gan y ddwy uned laser switshis ag allwedd ac roedd yr allweddi yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau sy'n meddu ar y cymwysterau addas. Gwelsom fod dogfennaeth berthnasol ar waith gan gynnwys asesiad risg, rheolau lleol a phrotocolau trin.

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr, ac roedd yn gyson â'r rheolau lleol ac mewn cyflwr da.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yr unig weithredwr wedi cael hyfforddiant priodol a chyfredol ar ddefnyddio'r unedau laser penodol a hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyffredinol, yn unol â chanllawiau Cymdeithas Laser Meddygol Prydain (BMLA).

Roedd protocolau trin priodol a chynhwysfawr ar waith, wedi'u cymeradwyo gan weithiwr meddygol proffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys technegau trin, paramedrau ac amrywiadau a ganiateir a chamau gweithredu i'w cymryd pe bai digwyddiad andwyol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei annog a'i adolygu'n rheolaidd, er mwyn helpu i wella'r gwasanaeth.

Nid oedd unrhyw gyfundrefn archwilio ffurfiol ar waith gan mai'r rheolwr cofrestredig oedd perchennog ac unig weithredwr y cyfarpar.

Technoleg rheoli gwybodaeth a chyfathrebu

Roedd y clinig yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein ar gyfer apwyntiadau a thaliadau a dywedwyd wrthym sut y gellid darparu ar gyfer cleifion heb fynediad at ddyfeisiau digidol pe bai angen.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar ffurf copiau caled a'u storio'n ddiogel.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 12 o gleifion a oedd wedi cael triniaeth laser i drin heintiau ewinedd ffwngaid, gwaredu blew neu waredu tatŵ.

Roedd cofnodion yn cael eu cadw drwy ddefnyddio ffurflenni a argraffwyd ymlaen llaw a oedd yn cael eu llenwi gan y claf a'r gweithredwr Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd chwech o'r cofnodion a welsom yn cynnwys gwybodaeth lawn. Gwnaethom gynghori y dylid cofnodi'r holl wybodaeth, gan gynnwys natur y driniaeth, manylion y gweithredwr a bod y claf wedi cydsynio i'r driniaeth benodol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth am driniaeth a chydysyniad yn cael ei chynnwys yng nghofnodion y cleifion.

Gwnaethom nodi bod triniaethau'n cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion unigol ond nad oedd unrhyw gofrestr ar wahân i ddangos pob tro roedd uned laser wedi cael ei defnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr triniaethau ar waith i ddangos pob tro y caiff uned laser ei defnyddio, sy'n dangos y canlynol:

- Enw'r claf
- Dyddiad y driniaeth
- Enw'r gweithredwr
- Natur y driniaeth - gan gynnwys yr ardal a gafodd ei thrin
- Paramedrau'r driniaeth
- Unrhyw ddamweiniau neu effeithiau andwyol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig oedd perchennog ac unig weithredwr y peiriannau laser ar y safle.

Gwelsom fod tystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn glir yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd gan y clinig yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant cyflogwr cyfredol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith a oedd hefyd ar gael i'r cleifion. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a manylion cyswllt i uwchgyfeirio pryderon at gyrff allanol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Y rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr ac nid oedd cynlluniau i recriwtio staff ychwanegol.

Roedd gan y rheolwr cofrestredig dystiolaeth o wiriadau a oedd wedi'u cynnal gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Y rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr ac roedd yn rheoli ei hyfforddiant gofynnol ei hun. Gwelsom dystiolaeth dda o hyfforddiant gorfodol cyfredol, gan gynnwys hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, diogelu ac ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân.

Gwnaethom gynghori y dylid rhoi systemau ar waith i sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen, gan gynnwys diweddarau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth bob pum mlynedd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod systemau ar waith i fonitro ac adnewyddu hyfforddiant gofynnol fel y bo'n briodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd gan y clinig asesiad risg lechyd a Diogelwch priodol ar waith er mwyn nodi risgiau posibl a mesurau rheoli.	Mae nodi risgiau a mesurau rheoli yn glir yn lleihau'r risg i'r staff a'r cleifion.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a chyflwynwyd asesiad risg lechyd a Diogelwch cynhwysfawr fel tystiolaeth.
Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod profion offer cludadwy rheolaidd yn cael eu cynnal.	Mae cynnal profion offer cludadwy (PAT) yn rheolaidd yn lleihau'r risg o dân mewn cyfarpar trydanol.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Ymdriniwyd â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad a threfnodd y gweithredwr i brofion offer cludadwy gael eu cynnal a darparwyd tystiolaeth i ddangos bod y profion wedi'u cwblhau.
Roedd asesiad risg tân ar waith a gwelsom nad oedd yn nodi risgiau a mesurau rheoli yn ddigonol.	Mae nodi risgiau a mesurau rheoli yn glir yn lleihau'r risg o dân i'r staff a'r cleifion.	Cafodd hyn ei godi gyda'r rheolwr cofrestredig.	Ymdriniwyd â hyn ar unwaith ar ôl yr arolygiad a chynhaliwyd asesiad risg tân gan ddefnyddio templed yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch, a nodwyd risgiau, mesurau rheoli a'r camau gweithredu gofynnol.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Golden Aura Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Golden Aura Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 10 Mawrth 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Nid oedd y clinig yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu'r rhai ag anawsterau symudedd. Nid oedd y materion hygyrchedd wedi'u nodi'n glir yn y canllaw i gleifion nac ar y wefan.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion a gwefan y clinig i sicrhau bod darpar gleifion yn ymwybodol o'r cyfyngiadau hygyrchedd.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 18			
2. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod profion offer cludadwy rheolaidd wedi cael eu cynnal.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion offer cludadwy yn cael eu cynnal yn flynyddol.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 26			

3.	Gwnaethom nodi nad oedd chwech o'r cofnodion a welsom yn cynnwys gwybodaeth lawn. Gwnaethom gynghori y dylid cofnodi'r holl wybodaeth, gan gynnwys natur y driniaeth, manylion y gweithredwr a bod y claf wedi cydsynio i'r driniaeth benodol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl wybodaeth am driniaeth a chydysyniad yn cael ei chynnwys yng nghofnodion y cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 45			
4.	Gwnaethom nodi bod triniaethau'n cael eu cofnodi yng nghofnodion cleifion unigol ond nad oedd unrhyw gofrestr ar wahân i ddangos pob tro roedd uned laser wedi cael ei defnyddio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr triniaethau ar waith i ddangos pob tro y caiff uned laser ei defnyddio, sy'n dangos y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Enw'r claf • Dyddiad y driniaeth • Enw'r gweithredwr • Natur y driniaeth - gan gynnwys yr ardal a gafodd ei thrin • Paramedrau'r driniaeth • Unrhyw ddamweiniau neu effeithiau andwyol. 	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 45			

<p>5. Y rheolwr cofrestredig oedd yr unig weithredwr ac roedd yn rheoli ei hyfforddiant gofynnol ei hun. Gwnaethom gynghori y dylid rhoi systemau ar waith i sicrhau bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddiweddarau yn ôl yr angen, gan gynnwys diweddarau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth bob pum mlynedd.</p>	<p>Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod systemau ar waith i fonitro ac adnewyddu hyfforddiant gofynnol fel y bo'n briodol.</p>	<p>Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, Rheoliad 21</p>		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad: